

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Fai 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Griffith Evan Thomas, Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Simon Jones

CYFARFOD BLYNYDDOL

1. Ymddiheuriadau: Dim
2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

Bu i'r Cynghorydd Simon Jones gyrraedd y cyfarfod oddeutu 19:06.

3. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020:

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchiadau i weddill y Cynghorwyr a diolchodd iddynt ac i'r Clerc am eu gwasanaeth i'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un trist, o ganlyniad i farwolaeth un o'r Cynghorwyr ac bod cwyn wedi ei dderbyn yn ystod y flwyddyn gan aelod o'r cyhoedd. Awgrymodd y dylid mynd ati i geisio llenwi'r seddi gwag yn ystod y flwyddyn.

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Richard Evans yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020.

4. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

5. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020:

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Bethan Lawton yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2019/2020.

6. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

PENDERFYNIAD: I dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

7. Enwebu a phenodi Cynghorwyr y gyrff allanol:

PENDERFYNIAD: I enwebu'r canlynol:
Ysbyty Tywyn a'r Cylch - y Cynghorydd Bethan Lawton
Un Llais Cymru - y Cynghorydd Arwel Pierce
Ysgol Gynradd Craig y Deryn - y Cynghorydd Bethan Lawton

8. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

Yr oedd y Clerc wedi paratoi fersiwn drafft o'r rheolau sefydlog gan ddefnyddio model cenedlaethol a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru.

PENDERFYNIAD: Y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Clerc i fynd drwy'r Rheolau Sefydlog yn fanwl ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

9. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

10. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

11. Derbyn Cofrestr Buddiannau Aelodau:

PENDERFYNIAD: Cwblhawyd cofrestrau buddiannau yn ystod y cyfarfod.

12. Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Lwfans £150 i Gynghorwyr:

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr adroddiad, gan nodi bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio gan dalu lwfans o £150 i bob Cynghorydd, gyda chynghorwyr yn medru penderfynu peidio â chymryd ar y lwfans drwy gyflwyno llythyr syml ac bod lwfans ar gael ar gyfer ad-dalu costau gofalu.

13. Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg y Cyngor:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y gofrestr asesiad risg.

14. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2019/2020:

PENDERFYNIAD: I benodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol y Cyngor.

15. Derbyn Cyfrifon 2018/19:

Yr oedd cyfrifon 2018/19 gan yr Archwiliwr Mewnol yng Nghaernarfon.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cyfrifon ac ail ystyried ar dderbyn sylwadau'r Archwiliwr Mewnol. Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn canfod os mai Cyngor Cymuned Brynchrug sydd yn berchen ar y bont ger y toiled cyhoeddus yn y pentref. I fuddsoddi £5,000 yn ystod y flwyddyn ar y cae chwarae.

CYFARFOD ARFEROL

16. Clwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug:

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol i'r cyfarfod: Ifor Williams (Ysgrifennydd), Billy Simkiss (Cadeirydd), Gwyn Williams (Trysorydd), Mathew Jones (Rheolwr).

Adroddwyd bod y pyst o gwmpas y cae pêl-droed wedi eu tynnu i lawr.

Eglurwyd bod y Gymdeithas Bêl-droed Cymru wedi newid y safonau ar gyfer y gynghrair, a bod angen i Glwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug gydymffurfio gyda'r safonau erbyn mis Ebrill 2020. Pe byddai'r clwb ddim yn cydymffurfio, byddai angen i'r clwb ddisgyn dau gynghrair, gan chwarae pêl-droed adloniant, sef beth mae clwb pêl-droed Aberdyfi yn ei chwarae.

Adroddwyd y byddai angen rhagor o seddi o dan do (50 yn ychwanegol), llain concriid ar hyd un lled a un hyd y cae, rhwystrau dur, pedwar cawod yn y ddau ystafell newid, a system PA. Cafwyd wybod bod y Gymdeithas Bel-droed yn cynnig grantiau a bod y clwb wedi cyflwyno cais am £22,032 a byddai angen i'r clwb ganfod 20% o'r swm. Byddai'r clwb hefyd angen cytundeb neu prydles ffurfiol gan y Cyngor.

Gofynnwyd y cwestiwn parthed asbestos ar y Pafiliwn.

Bu i gynrychiolwyr o'r clwb pêl-droed adael y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth gan y Clwb Pêl-droed. Y Cyngor i gynnal cyfarfod arbennig er mwyn trafod y mater, gan gynnal y cyfarfod ar nos Lun, 3 o Fehefin 2019. Y Cyngor i drafod ar sail bod blaenoriaeth yn cael ei roi i blant y pentref i ddefnyddio'r cae, ac nad ydynt yn cael eu rhwystro rhag chwarae ar y cae.

17. Derbyn cofnodion 15 Ebrill 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Alan H. Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Arwel Pirce yn eilio.

18. Cyfrifon i'w talu:

PENDERFYNIAD: Nid oedd modd talu'r anfonebau, gan bod y llyfr sieciau gyda'r Archwilwyr Mewnol.

19. Pymplau Dŵr Hanesyddol - Ffensio:

Adroddwyd nad oedd cyfarfod safle wedi ei gynnal er mwyn edrych ar ffensio.

PENDERFYNIAD: I ofyn wrth Jones & Jones i blannu blodau yn y tybiau yn y pentref a chwynnu'r ardd fach, gan hefyd chwynnu o gwmpas y pymplau a torri'r sietyn.

20. Ffensys o gwmpas Maes Hyfryd:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a CCG er mwyn eu hysbysu bod y ffensys sydd wrth ymyl y fflatiau a'r garages ar y llawr, wedi disgyn drosodd.

21. Cyflwr arwyddion ffordd o gyfeiriad Llanegryn:

Adroddwyd yn y cyfarfod bod yr arwyddion eisoes wedi eu hadnewyddu.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

22. Pryder am yrwyr yn goryrru yn y pentref:

Adroddwyd bod llawer iawn yn pryderu yn y pentref am yrwyr yn goryrru, ardal ger y Ffatri a ger Gwyndy.

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Heddlu Gogledd Cymru gan ofyn iddynt anfon swyddog i drafod y sefyllfa gyda'r Cyngor.

23. Llywodraeth Cymru - Arwydd ar yr A487 ger Minffordd (Talyllyn):

Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i llythyr y Cyngor yn mynegi pryder am ddiffyg arwyddion ger Minffordd. Eglurwyd yn y llythyr mai trefniant dros dro yw'r arwyddion nes bod pont-ar-Ddyfi newydd yn cael ei hadeiladu a byddant yn ail-edrych ar y sefyllfa.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

24. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Arwydd Marcio Hydrant Tân:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn gan Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd mewn ymateb i llythyr y Cyngor. Mynegwyd yn y llythyr nad oedd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwyddion marcio hydrant tân ac y dylid cyfeirio ein ymholiadau at gwmni Dŵr Cymru.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu at Ddŵr Cymru, gan ofyn iddynt gynnal arolwg o'r hydrant yn y pentref gan bod pryder am eu cyflwr.

25. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-angen paentio'r ffenestri a'r drysau ar y Pafiliwn
-byrddau picnic yn cael eu symud o gwmpas
-angen cadw llygaid ar y wal ddringo

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

26. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-cwynion pob dydd Gwener yn dilyn y lori ailgylchu, gyda sbwriel ym mhob man

-Arweinydd ac Is arweinydd Cyngor Gwynedd yn bwriadu ymweld a'r ward yn fuan. Y Cynghorydd am ddangos gyflwr y ffyrdd, chwyn yn tyfu wrth ymyl ffyrdd, gan hefyd sôn am yr angen i uwchraddio toiledau cyhoeddus.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

27. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys i'w drafod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:35pm

Llofnod y Cadeirydd